

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

West Quay Dental Practice,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 11 Rhagfyr  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mawrth  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n hadolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisiau deintddol.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	26
	Atodaid C – Cynllun gwella.....	27

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau archwiliad lle rhoddir rhybudd o Bractis Deintyddol West Quay yng Nghanolfan Feddygol West Quay, Hood Road, y Barri CF62 5QW, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 11 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cyfoedion deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

At ei gilydd, canfuom dystiolaeth bod Practis Deintyddol West Quay yn canolbwyntio ar y claf, gan ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd gan y practis ystod dda o bolisiâu a gweithdrefnau, gyda gwiriadau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu darllen gan yr holl staff.

Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant hanfodol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion
- Roedd dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan reolwr y practis, y rheolwr ardal a'r ymgynghorydd clinigol
- Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Pob aelod o staff i dderbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd
- Sicrhau bod ystod o daflenni gwybodaeth iechyd ar gael i gleifion
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau i gofnodi'r ddarpariaeth o gyngor ar ysmegu a/neu roi'r gorau i alcohol.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol West Quay, sy'n eiddo i'r cwmni rheoli Rodericks Dental, yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Barri. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un therapydd, chwe nyrs ddeintyddol, pedair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, tri aelod o staff y dderbynfa ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn gwrtais a phroffesiynol wrth siarad â chleifion.

Roedd angen i'r feddygfa ddarparu deunydd hybu iechyd ychwanegol i gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 21 o holiaduron eu cwblhau.

At ei gilydd, roedd adborth cleifion a gafodd ei ddarparu yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Rhoddodd un claf y sylw canlynol yn yr holiaduron:

*"Rwy'n glaf hapus iawn yn y practis deintyddol. Wynebaw hapus bob amser a bob amser yn lân iawn. Ni allaf ei argymell ddigon"*

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Cadw amseroedd apwyntiad sy'n cael eu rhoi"*

*"Mwy o bethau i ddiddanu plant"*

*Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:*

## Cadw'n iach

O'r 21 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 16 wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Dim ond nifer gyfyngedig o daflenni gwybodaeth hybu iechyd oedd ar gael yn y practis ac, ar y cyfan, roedd y rhain yn gysylltiedig â thriniaethau deintyddol



preifat. Byddem yn argymhell bod y practis yn arddangos ystod o daflenni gwybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys gwybodaeth am ystod o driniaethau deintyddol GIG a phreifat a sut i gynnal iechyd y geg da.

Roedd arwyddion Dim Ysmygu yn yr ystafell aros a oedd yn cadarnhau'r pwyslais a oedd yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth safleoedd di-fwg. Roedd cardiau hefyd ar gyfer llinell gymorth cyngor rhoi'r gorau i ysmygu ar gael i gleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Byddem yn argymhell fod y practis yn arddangos ystod o daflenni gwybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys gwybodaeth am ystod o driniaethau deintyddol a sut i gynnal iechyd y geg da.

## Gofal ag urddas

O'r 21 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur, dywedodd 20 wrthym eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis; ni roddwyd ateb ar gyfer ycwestiwn hwnnw gan un claf.

Dywedodd staff wrthym, petai angen sgwrs breifat gyda chleifion, y gallai hyn gael ei gynnal yn swyddfa rheolwr y practis. Gellid gwneud galwadau ffôn o'r swyddfa honno hefyd, gan roi preifatrwydd i'r claf.

Roedd dau ddrws ar bob ystafell driniaeth heblaw am un. . Roedd un yn wynebu'r ystafell aros a oedd i'w ddefnyddio gan gleifion. Roed y llall yn arwain at goridor a oedd wedi'i gyfyngu i ddefnydd staff yn unig. Pan oedd claf yn derbyn triniaeth, byddai'r drysau yn cael eu cau, gan roi preifatrwydd ac urddas iddynt.

## Gwybodaeth i gleifion

Ar ycyfan, dywedodd 17 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur eu bod yn teimlo'n rhan (cymaint ag yr oeddent am fod) o unrhyw drafodaethau ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol. Ni wnaeth pedwar claf ateb y cwestiwn hwn.

O'r 17 o gleifion hynny, dywedodd 15 fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonioiddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a dywedodd 11 eu bod yn deall sut oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Fodd bynnag, dywedodd pedwar claf wrthym nad oeddent yn deall sut oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn yr ystafell aros roedd nifer o bosteri yn nodi'r rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat. Roedd dau boster yn nodi'r rhestr brisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG yn y dderbynfa ond roedd un yn rhy bell i ffwrdd i'r wybodaeth gael ei darllen gan gleifion. Pan dynnwyd sylw at hyn, gwnaeth y rheolwr practis gywiro hwn trwy osod posteri ychwanegol wrth ymyl y rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r 21 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur nad oeddent yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Nododd mwyafrif y cleifion ar yr holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith, gyda dau glaf heb ateb y cwestiwn.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar staff clinigol a rhai nad oeddent yn glinigol yn bod yn gwrtais wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

### Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos y tu fewn a'r tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Os oedd deintydd yn hwyr, byddai staff yn y dderbynfa yn cael eu hysbysu trwy neges ar y cyfrifiadur a byddent wedyn yn hysbysu unrhyw glaf sy'n aros am unrhyw oedi, gan gynnig apwyntiad arall pe bai angen.

### Gofal unigol

#### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth mwyafrif y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod eu deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

#### Hawliau pobl

Roedd y practis ar y llawr cyntaf, uwchben canolfan feddygol. Roedd mynediad i'w gael drwy risiau, neu ar gyfer y rheiny ag anawsterau symudedd, trwy lifft y gellir mynd ato yn y ganolfan feddygol.

### Gwrando a dysgu o adborth

O'r 21 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur, dywedodd 11 y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn ynglŷn â'r gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis un polisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y polisi mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat ond nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â phroses gwyno'r GIG "Gweithio i Wella"<sup>1</sup>. Gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r polisi o ran triniaeth ddeintyddol y GIG, i gynnwys amserlenni fel y'u nodir yn Gweithio i Wella a manylion cyswllt ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. O ran triniaeth ddeintyddol breifat, gwnaethom ofyn i hyn gael ei ddiwygio i gynnwys manylion cyswllt y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Gwnaeth rheolwr y practis gywiro'r polisi yn ystod yr arolygiad gan drefnu i'r newidiadau gael eu hadlewyrchu yn y daflen wybodaeth i gleifion I

Roedd y practis yn cynnal log o gwynion a dderbyniwyd a manylion y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. Roedd y practis yn cofnodi unrhyw bryderon llafar/anffurfiol ar nodiadau'r claf. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol ac rydym yn cynghori bod y practis yn cadw llyfr nodiadau i gofnodi unrhyw adborth sy'n cael ei roi ar lafar. Ynghyd â'r wybodaeth yn y log cwynion, byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu sy'n codi droeon.

Gwnaethom nodi bod gan y practis holiaduron a blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros i gleifion eu cwblhau.

---

<sup>1</sup> 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol cleifion mewn cofnodion cleifion ac i wneud trefniadau amgen ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd cyfleusterau clinigol yn lân, yn daclus ac wedi'u cynllunio'n dda gyda choridor staff yn unig yn arwain o'r ystafelloedd triniaeth i'r cyfleusterau dadheintio.

Roedd gan y practis bolisïau diogelu priodol ar waith.

Mae angen i ddeintyddion gydymffurfio â chanllawiau ynglŷn â chymryd a chyfiawnhau pelydrau-X.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff y practis a chleifion.

Symudodd y practis o'i safle presennol yng Ngwanwyn 2017. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a gwelsom fod pob ardal wedi'i threfnu'n dda, yn lân ac yn daclus.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur yn teimlo fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y practis. Roedd y rhain wedi'u gosod o fewn y 12 mis diwethaf ac felly nid oeddent wedi derbyn gwasanaeth blynyddol eto. Dywedwyd wrthym y byddai hyn hefyd yn wir am brofi offer cludadwy gan fod yr offer perthnasol wedi'i brynu pan symudodd y practis. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy ac roedd cadair achub ar dop y grisiau i'r rhai ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff amalgam a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel. Gwnaethom gynghori y dylai'r cynwysyddion offer miniog, er eu bod wedi'u lleoli'n agos at y clinigwr, gael eu gosod yn sownd wrth y wal yn ddelfrydol.

Roedd gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus', a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom sylwi ar y poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell staff.

### **Atal a rheoli heintiau**

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup>. Gwnaethom nodi fod ystafell lân ac ystafell fudr gydag offerynnau'n cael eu trosglwyddo trwy orddrws pwrpasol.

Gwelsom fod y staff yn glanhau offer (cyn dadheintio) â llaw. Mae glanhau ac archwilio yn rhannau allweddol o'r broses dadheintio offer a dywedwyd wrthym y byddai Rodericks Group yn prynu a gosod baddonau uwchsonig ym mhob practis, fel yr argymhellwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom y llyfrau log i wirio bod yr offer sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gan bob aelod o staff clinigol dystysgrifau ar ffeil i gadarnhau bod eu hyfforddiant rheoli heintiau yn gyfredol.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Ac eithrio'r therapydd, dwy nyrs ddeintyddol a derbynnydd, a fydd yn mynychu cwrs ym mis Ionawr 2018, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru

---

<sup>2</sup> Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf penodedig, ac roedd gan bob un dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol.

Roedd gan y practis gyffuriau priodol a ddefnyddir mewn argyfwng ac offer dadebru brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>3</sup>. Gwnaethom nodi hefyd, yn unol â'r canllawiau, bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau ac offer brys yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Gwnaethom nodi nad oedd y cyffur Glucagon wedi'i storio mewn oergell. Mewn sefyllfa o'r fath mae angen haneru dyddiad dod i ben y cyffur, tra bod hyn yn wir ar y daflen ddata nid oedd y label ar y cynhwysydd wedi cael ei newid. Pan wnaethom hysbysu'r practis o hyn, cafodd camau eu cymryd ar unwaith a chafodd y dyddiad dod i ben ei ddiwygio.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel ac roeddent yn cael eu harwyddo i mewn ac allan gan y deintyddion ar ddechrau a diwedd y dydd.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol perthnasol. Ac eithrio un derbynnydd, roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Nid oedd y derbynnydd wedi cwblhau hyfforddiant i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Rydym yn argymhell bod yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â chleifion ac o bosibl plant ac oedolion agored i niwed yn derbyn hyfforddiant priodol.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau cyn-gyflogaeth yn cael eu cynnal ar aelodau newydd o staff cyn iddynt ddechrau gweithio yn y practis.

---

<sup>3</sup> Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol, a'u bod wedi'i gwblhau

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r timau deintyddol.

Roedd y meddygfeydd a'r offer radiolegol yn amlwg yn lân ac yn gweithio. Roedd ardaloedd a reolir wedi'u nodi.

Cafodd y peiriannau pelydr-X eu gosod yn ddiweddar pan sefydlwyd y practis yng Ngwanwyn 2017. Gwelsom ardystiad o wiriad cyfarpar offer ymbelydredd ar gyfer bob peiriant. Cedwid ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Diben sicrhau ansawdd yw sicrhau gwybodaeth ddiagnostig ddigonol yn gyson, gan reoli lefelau ymbelydredd i fod mor isel ag sy'n ymarferol bosib. Byddem yn cynghori'r feddygfa i ystyried gosod bathodynau lefel ymbelydredd ar bob peiriant pelydr-X i alluogi staff i sicrhau nad eir y tu hwnt i lefelau ymbelydredd diogel.

Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>4</sup> ac Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IR (ME) R) 2000<sup>5</sup> roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

---

<sup>4</sup> Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

<sup>5</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf)



## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth o'r practis yn ymgymryd ag archwiliadau, gan gynnwys golchi dwylo, rhagnodi a radiograff. Gosododd y practis ystafell ddadheintio newydd pan wnaethant symud i'r adeilad newydd yng Ngwanwyn 2017 a byddant yn cynnal archwiliad yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 o fewn eu blwyddyn gyntaf.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Mae'r holl staff wedi mynychu cynhadledd genedlaethol Roderick Group a oedd yn rhoi cyfle i staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol gyfarfod â chyfoedion a dysgu. Dywedwyd wrthym y byddai clinigwyr yn mynychu sioe deithiol y Grŵp yn gynnar yn 2018, eto at ddiben adolygu gan gymheiriaid.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Mae cofnodion cleifion yn electronig gyda dogfennau papur, gan gynnwys hanes meddygol, yn cael eu sganio a'r copïau gwreiddiol yn cael eu dinistrio yn y modd priodol yn dilyn apwyntiad y claf. Gwnaed copïau wrth gefn o ffeiliau bob nos.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data a gwnaethom nodi dogfennaeth a oedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

### **Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o ansawdd da iawn, sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o ofal cleifion da.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw cofnodion yn unol â rheoliad 14 (1) (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Safon Cyfarwyddyd 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ynghylch sicrhau bod cofnodion deintyddol y cleifion sydd wedi'u cwblhau gan y deintyddion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Canfuom achosion lle nad oedd y broses o roi cyngor ar roi'r gorau i ysmegu a rhoi'r gorau i alcohol wedi'i chofnodi ar gofnod y claf. Nid oedd rhai cleifion wedi cael pelydr-X am gyfnod sylweddol heb gyfiawnhad, felly nid ydynt yn cwrdd â chanllawiau a argymhellir.

Mae angen i'r practis hefyd sicrhau bod yr hanesion meddygol electronig yn cael eu ffeilio'n gywir ac yn gyson.

Gwnaethom nodi bod archwiliad o gofnodion meddygol wedi cael ei wneud.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ym mhob ymweliad cleifion i gofnodi'r broses o roi cyngor ar roi'r gorau i ysmegu a rhoi'r gorau i alcohol.

Rhaid i ddeintyddion gydymffurfio â'r canllawiau a argymhellir ynglŷn â chymryd a chyfiawnhau pelydrau-X.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn ystod yr arolygiad, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli da ar waith er lles staff, gan gynnwys arfarniadau staff a chyfarfodydd staff rheolaidd a oedd yn cael eu cofnodi.

Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl ofynion hyfforddi yn gyfredol.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae Practis Deintyddol West Quay yn rhan o bractisau deintyddol Rodericks Group yng Nghymru a Lloegr. Mae rheolaeth o ddydd i ddydd yn cael ei ddarparu gan reolwr y practis sydd â chefnogaeth rheolwr ardal ac ymgynghorydd clinigol i Gymru. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref gyda'r staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a gwnaethom arsylwi ar berthnasau da o fewn y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda gyda dull da o gadw cofnodion ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Gwelsom fod amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod y polisiâu'n cael eu hadolygu'n ganolog a'u llofnodi gan yr holl staff i gadarnhau eu bod wedi eu darllen, ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth. Gwnaethom hefyd nodi bod set o bolisiâu yn cael eu cadw yn yr ystafell staff gan eu gwneud yn hawdd i'w cyrraedd.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'i swyddogaeth pe bai argyfwng meddygol. Gwnaethom nodi nad oedd polisi a gweithdrefn dadebru'r practis yn

cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff pe bai argyfwng yn codi. Byddem yn argymhell fod hyn yn cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng meddygol yn y practis.

Roedd yr holl staff wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad priodol ar waith, gyda'r nyrsys deintyddol yn cael eu diogelu gan yswiriant indemniad y cwmni. Mae'r deintyddion yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwnaethom nodi eu bod i gyd yn arddangos eu tystysgrifau cofrestru yn eu priod ystafelloedd triniaeth fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis newid eu polisi a'u gweithdrefnau argyfwng meddygol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u swyddogaethau pe bai argyfwng meddygol.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau ac sy'n bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Fodd bynnag, roedd un aelod o staff nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Rydym yn argymhell bod yr unigolyn hwn yn trefnu mynychu cwrs cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cefnogi gan gofnodion manwl sydd wedi'u llofnodi gan yr holl staff i ddangos eu bod wedi eu darllen.

Gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau staff fod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith. Roedd gan reolwr y practis hefyd raglen o arfarniadau staff ar waith.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.<sup>6</sup> Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth o imiwnedd o ran y cofnodion imiwneiddio ar gyfer tri nyrs. Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn mynnu fod gan bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a roddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar bob aelod o staff clinigol a staff nad ydynt yn glinigol yn y practis.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod gan staff fynediad i hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau, er mwyn bodloni eu gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

---

<sup>6</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Nid oedd y polisi cwynion yn cydymffurfio'n llwyr â phroses gwyno'r GIG "Gweithio i Wella". Gwnaethom argymhell bod y polisi'n cael ei ddiweddarau o ran triniaeth ddeintyddol y GIG, gan gynnwys amserlenni fel sy'n cael eu nodi yn "Gweithio i Wella" a manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd. O ran triniaeth ddeintyddol breifat, gwnaethom ofyn i hyn gael ei ddiwygio i gynnwys manylion cyswllt y cyngor cwynion deintyddol.</p>	<p>Efallai na fydd cleifion yn gwybod am y broses wrth gyflwyno cwyn ynglŷn â gofal deintyddol y GIG neu efallai na fyddent yn gallu cyfeirio pryder neu gŵyn i'r asiantaeth gywir.</p>	<p>Dygwyd hyn i sylw rheolwr y practis.</p>	<p>Gwnaeth rheolwr y practis gywiro'r polisi yn ystod yr arolygiad a threfnu i'r newidiadau gael eu hadlewyrchu yn y daflen wybodaeth i gleifion</p>
<p>Yn yr ardal aros roedd nifer o bosteri yn nodi'r rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat. Roedd dau boster</p>	<p>Rhaid i bractis sicrhau bod rhestrau prisiau yn cael eu harddangos gan ddarparu</p>	<p>Dygwyd hyn i sylw rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad</p>	<p>Gwnaeth rheolwr y practis gywiro hwn trwy ychwanegu posteri ychwanegol a gosod y rhain wrth</p>



yn nodi'r rhestr brisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG yn y dderbynfa ond roedd un yn rhy bell i ffwrdd i'r wybodaeth gael ei darllen gan gleifion.	gwybodaeth glir am brisiau triniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat.		y rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat
--	--	--	---

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol West Quay

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chafodd unrhyw faterion sicrwydd uniongyrchol eu codi yn ystod yr arolygiad				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol West Quay**

**Dyddiad yr arolygiad: 11 Rhagfyr 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Byddem yn argymhell bod y practis yn arddangos ystod o daflenni gwybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys gwybodaeth am ystod o driniaethau deintyddol a sut i gynnal iechyd y geg da.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r rhain wedi'u harchebu a dylent fod gyda ni 1.3.18	Sara Ryan- Rheolwr y practis	1.3.18
Y practis i roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol cleifion mewn cofnodion cleifion ac i wneud trefniadau amgen ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Bydd y practis ddim ond yn cofnodi gwybodaeth berthnasol i anghenion clinigol y cleifion a'u trafodaethau gyda staff clinigol yn y cofnodion cleifion.  Bydd yr holl adborth arall gan gleifion	Sara Ryan- Rheolwr y practis	Cwblhawyd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		megis holiaduron cleifion a slipiau sylwadau yn cael eu cadw gan rheolwr y practis yn y cofnod adborth.		

### Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol, a'u bod yn ei gwblhau	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Mae hyn wedi'i gwblhau. 12.12.17	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.
Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ym mhob ymweliad gan gleifion er mwyn cofnodi'r broses o roi cyngor ar roi'r gorau i ysmegu a rhoi'r gorau i alcohol.	3.5 Cadw cofnodion	Bellach mae gan y deintyddion nodiadau cyflym sy'n cynnwys yr wybodaeth hon fel y gallant gofnodi ar nodiadau'r cleifion bod hyn wedi'i roi. 12.12.17.  Bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gadw cofnodion.	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.
Rhaid i ddeintyddion gydymffurfio â'r canllawiau a argymhellir ynglŷn â chymryd a chyfiawnhau pelydrau-X.		Mae templedi cofnodion wedi'u haddasu i sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau IRMER a bod cyfiawnhad priodol dros radiograffau yn cael ei gofnodi. 12.12.17	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.

### Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis ddiwygio'i bolisi a'i weithdrefnau meddygol brys i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau petai argyfwng meddygol.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Dogfen bolisi wedi'i diwygio ac atodiad 10 wedi'i lunio yn manylu ar gyfrifoldebau holl aelodau'r staff pe bai argyfwng meddygol	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.
Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod gan staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau er mwyn bodloni eu gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).	7.1 Gweithlu	Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant bellach. (9.1.18)	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.
Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.		Mae'r holl gofnodion bellach yn gyfredol	Sara Ryan-Rheolwr y practis	Cwblhawyd.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Sara Ryan**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 12 Chwefror 2018**